



Tystysgrif Sylfaen mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg

DARLLEN A LLENWI BYLCHAU

23 Mehefin 2023

23 June 2023

Enw llawn:

Full name:

Rhif arholiad:

Examination number:

Canolfan:

Centre:

Hyd y prawf: 40 munud

Mae hyd at 60 marc ar gael yn y prawf hwn.

Duration of test: 40 minutes

It's possible to be awarded up to 60 marks for this test.

Mae tair rhan i'r papur hwn. Atebwch bob rhan ar y papur ei hun yn Gymraeg, lle bydd angen geiriau. Dewiswch naill ai Fersiwn y De neu Fersiwn y Gogledd.

There are three parts to this paper. Answer all three on the paper itself in Welsh, where words are required. Choose either the South Wales or the North Wales version.

Peidiwch ag agor y llyfr hwn cyn i'r trefnydd roi caniatâd. Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Do not open this book until given permission by the organiser. No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the exam.

1. Erthygl Article

Fersiwn y De South Wales Version

Chef Gorau Cymru

Os o'ch chi'n gwylio S4C neithiwr, byddwch chi'n gwybod bod Gareth Williams o Aberaeron wedi ennill teitl 'Chef gorau Cymru' ar y rhaglen goginio Llund Bol. Achos ei fod e wedi ennill, bydd e'n gweithio am flwyddyn gyda'r cogydd enwog Dudley Berry yng ngwesty'r Ritz, gwesty pump seren yn y Bala, gan ddechrau ym mis Rhagfyr. Sut mae Gareth yn teimlo am hyn?

'Dw i'n edrych ymlaen yn fawr,' meddai Gareth. 'Dw i'n gwybod bydd y gwaith yn galed, ond dw i'n mynd i ddysgu cymaint wrth weithio yng nghegin y Ritz gyda Dudley. Yn y dyfodol, dw i'n gobeithio agor tŷ bwyta yn Abersoch gyda llawer o bysgod ffres ar y fwydlen. Roedd fy mam-gu'n byw yn Abersoch ac ro'n i'n mynd yno ar wyliau'n aml pan o'n i'n blentyn. Dysgais i bopeth dw i'n ei wybod am goginio gan Mam-gu.'

Wnaeth Gareth fwynhau cymryd rhan yn rhaglen Llund Bol? 'Ro'n i'n nerfus iawn yn y rhaglen gynta,' meddai Gareth, 'a wnaeth pethau ddim dechrau'n dda. Rhoiais i ormod o halen yn y cawl ac anghofiais i roi siwgr yn y gacen lemwn. Ro'n i'n lwcus iawn i fynd ymlaen i'r ail rownd. Ond setlais i wedyn a dechrau mwynhau fy hun.'

Pam enillodd Gareth, felly?

'Roedd Gareth yn defnyddio bwyd ffres o Gymru trwy'r amser,' meddai Dudley Berry, 'ac roedd pob pryd yn flasus iawn. Ond enillodd e neithiwr achos bod ei bwdin reis gyda ffrwythau'r goedwig mor fendigedig. Dw i erioed wedi bwyta pwdin reis mor flasus.'

Ble dysgodd Gareth ddysgu wneud y pwdin reis yma, felly?
'Gan Mam-gu, wrth gwrs!'

Cwestiynau
Questions

[20]

Dewiswch yr ateb cywir, gan nodi llythyren y dewis cywir yn y blwch.
Mae 4 marc am bob ateb cywir.

Choose the correct answer, noting the letter of the correct option in the box. There are 4 marks for each correct answer.

1. Beth yw Llund Bol?
a. gwesty
b. tŷ bwyta
c. math o bwddin
ch. rhaglen deledu ☐
2. Ble bydd Gareth amser y Nadolig?
a. ar y teledu
b. ar wyliau
c. yn gweithio mewn gwesty
ch. yng nghartref Dudley Berry ☐
3. Pam roedd Gareth yn mynd i Abersoch ers talwm?
a. i fwyta mas
b. i bysgota
c. i aros gyda'i fam-gu
ch. i fynd ar gwrs coginio ☐
4. Pryd gaeth Gareth y problemau mwya?
a. yn y rownd gynta
b. yn yr ail rownd
c. yn y drydedd rownd
ch. yn y rownd oedd ar y teledu neithiwr ☐
5. Beth oedd y prif reswm pam enillodd Gareth deitl 'Chef gorau Cymru'?
a. roedd ei fwyd e'n fwy ffres na bwyd y chefs eraill
b. roedd Dudley Berry'n hoff iawn o bwddin reis Gareth
c. roedd e wedi bod yn gweithio yn y Ritz am flwyddyn
ch. roedd Dudley Berry'n nabod mam-gu Gareth ☐

1. **Erthygl** *Article*

Fersiwn y Gogledd *North Wales Version*

Chef Gorau Cymru

Os oeddech chi'n gwylio S4C neithiwr, mi fyddwch chi'n gwybod bod Gareth Williams o Aberaeron wedi ennill teitl 'Chef gorau Cymru' ar y rhaglen goginio Llund Bol. Achos fod o wedi ennill, mi fydd o'n gweithio am flwyddyn efo'r cogydd enwog Dudley Berry yng ngwesty'r Ritz, gwesty pump seren yn y Bala, gan ddechrau ym mis Rhagfyr. Sut mae Gareth yn teimlo am hyn?

'Dw i'n edrych ymlaen yn fawr,' meddai Gareth. 'Dw i'n gwybod bydd y gwaith yn galed, ond dw i'n mynd i ddysgu cymaint wrth weithio yng nghegin y Ritz efo Dudley. Yn y dyfodol, dw i'n gobeithio agor tŷ bwyta yn Abersoch efo llawer o bysgod ffres ar y fwydlen. Roedd fy nain yn byw yn Abersoch a ro'n i'n mynd yno ar wyliau'n aml pan o'n i'n blentyn. Mi wnes i ddysgu popeth dw i'n ei wybod am goginio gan Nain.'

Wnaeth Gareth fwynhau cymryd rhan yn rhaglen Llund Bol? 'Ro'n i'n nerfus iawn yn y rhaglen gynta,' meddai Gareth, 'a wnaeth pethau ddim dechrau'n dda. Mi wnes i roi gormod o halen yn y cawl ac mi wnes i anghofio rhoi siwgr yn y gacen lemwn. Ro'n i'n lwcus iawn i fynd ymlaen i'r ail rownd. Ond mi wnes i setlo wedyn a dechrau mwynhau fy hun.'

Pam wnaeth Gareth ennill, felly?

'Roedd Gareth yn defnyddio bwyd ffres o Gymru trwy'r amser,' meddai Dudley Berry, 'ac roedd pob pryd yn flasus iawn. Ond mi wnaeth o ennill neithiwr achos bod ei bwdin reis efo ffrwythau'r goedwig mor fendigedig. Dw i erioed wedi bwyta pwdin reis mor flasus.'

Lle wnaeth Gareth ddysgu gwneud y pwdin reis yma, felly?

'Gan Nain, wrth gwrs!'

Cwestiynau
Questions

[20]

Dewiswch yr ateb cywir, gan nodi llythyren y dewis cywir yn y blwch.
Mae 4 marc am bob ateb cywir.

Choose the correct answer, noting the letter of the correct option in the box. There are 4 marks for each correct answer.

1. Be' ydy Llund Bol?
a. gwesty
b. tŷ bwyta
c. math o bwdin
ch. rhaglen deledu ☐
2. Lle fydd Gareth amser y Nadolig?
a. ar y teledu
b. ar wyliau
c. yn gweithio mewn gwesty
ch. yng nghartref Dudley Berry ☐
3. Pam roedd Gareth yn mynd i Abersoch ers talwm?
a. i fwyta allan
b. i bysgota
c. i aros efo'i nain
ch. i fynd ar gwrs coginio ☐
4. Pryd gaeth Gareth y problemau mwya?
a. yn y rownd gynta
b. yn yr ail rownd
c. yn y drydedd rownd
ch. yn y rownd oedd ar y teledu neithiwr ☐
5. Be' oedd y prif reswm pam wnaeth Gareth ennill teitl 'Chef gorau Cymru'?
a. Roedd ei fwyd o'n fwy ffres na bwyd y *chefs* eraill.
b. Roedd Dudley Berry'n hoff iawn o bwdin reis Gareth.
c. Roedd o wedi bod yn gweithio yn y Ritz am flwyddyn.
ch. Roedd Dudley Berry'n nabod nain Gareth. ☐

Rhan 2 – Adnabod ergyd neges

[16]

Part 2 – Identifying the gist of a message

Fersiwn y De

South Wales Version

Dewiswch y pennawd mwya tebygol fel pwnc i bob neges ebost.

Mae dau bennawd ychwanegol amherthnasol. Rhowch y 'rhif neges' (1, 2, ac ati) wrth y pedwar pennawd mwya addas yn y tabl yma:

Choose the most likely heading as a subject for each e-mail message.

There are two extra irrelevant headings. Put the 'message number' (1,2, etc) next to the four most appropriate headings in this table:

	Pwnc	Rhif neges
a.	Croeso yn ôl	
b.	Angen help	
c.	Gwaith anodd	
ch.	Cyfarfod nesa	
d.	Diolch yn fawr	
dd.	Taith yr haf	

Oddi wrth: Edna John At: Y Staff Pwnc: _____ Prynhawn da. Mae Cymdeithas y Staff yn trefnu bws i fynd i Fryste ar 1 Awst eleni. Byddwn ni'n gadael maes parcio'r swyddfa am 7.30 y bore ac yn cyrraedd adre am 8.00 y nos. Pris – dim ond £15! Os dych chi eisiau dod gyda ni ym mis Awst, cysylltwch â fi cyn gynted â phosib. Y cyntaf i'r felin sy'n cael dod! Diolch a hwyl, Edna	Neges 1
--	----------------

Oddi wrth: Ed Sullivan
At: Rhieni Ysgol y Llan
Pwnc: _____

Neges 2

Annwyl bawb,
Mae'r ysgol yn gobeithio anfon y plant sy yn y tîm hoci i
Canada ym mis Rhagfyr. Bydd rhaid i ni godi arian i allu
gwneud hyn wrth gwrs. Os dych chi eisiau ymuno â'r grŵp
sy'n trefnu, cysylltwch â fi – mae eisiau mwy o rieni i
gymryd rhan. Bydd y cyfarfodydd ar-lein wrth gwrs, os
dych chi'n gallu dod. Diolch ymlaen llaw.
Ed

Oddi wrth: Anna
At: Vincent
Pwnc: _____

Neges 3

Helo Vince, wyt ti'n well? Dim ond neges fach i ddymuno'n
dda i ti, ar ôl i ti ddod yn ôl i'r gwaith. Roedd hi'n anodd heb
dy help di dros yr haf, ond aeth popeth yn iawn yn y
diwedd, diolch byth. Mae pawb yn falch fod y driniaeth gest
ti yn yr ysbyty wedi mynd yn dda. Bydda i'n galw i mewn i
ddweud helo cyn bo hir, gobeithio.
Cofion, Anna

Oddi wrth: Graham
At: Maria
Pwnc: _____

Neges 4

Bore da, Maria. Aeth y cyngerdd neithiwr yn dda iawn, felly
hoffwn i ddiolch i ti a'r tîm am drefnu popeth. Roedd y côr
wedi canu'n wych ac roedd hi mor braf cael te a sgwrs gyda
phawb ar ôl hynny. Dw i'n gobeithio bydd y papur lleol yn
cynnwys lluniau o'r noson; roedd pawb wedi gweithio'n
galed iawn.
Pob hwyl,
Graham

Rhan 2 – Adnabod ergyd neges

[16]

Part 2 – Identifying the gist of a message

Fersiwn y Gogledd

North Wales Version

Dewiswch y pennawd mwya tebygol fel pwnc i bob neges ebost.

Mae dau bennawd ychwanegol amherthnasol. Rhowch y 'rhif neges' (1, 2, ac ati) wrth y pedwar pennawd mwya addas yn y tabl yma:

Choose the most likely heading as a subject for each e-mail message.

There are two extra irrelevant headings. Put the 'message number' (1, 2, etc) next to the four most appropriate headings in this table:

	Pwnc	Rhif neges
a.	Croeso yn ôl	
b.	Angen help	
c.	Gwaith anodd	
ch.	Cyfarfod nesa	
d.	Diolch yn fawr	
dd.	Taith yr haf	

Oddi wrth: Edna John

At: Y Staff

Pwnc: _____

Neges 1

Prynhawn da.

Mae Cymdeithas y Staff yn trefnu bws i fynd i Fryste ar 1 Awst eleni. Mi fyddwn ni'n gadael maes parcio'r swyddfa am 7.30 y bore ac yn cyrraedd adre am 8.00 y nos. Pris – dim ond £15! Os dach chi isio dŵad efo ni ym mis Awst, cysylltwch efo fi cyn gynted â phosib. Y cyntaf i'r felin sy'n cael dŵad!

Diolch a hwyl,

Edna

Oddi wrth: Ed Sullivan At: Rhieni Ysgol y Llan Pwnc: _____	Neges 2
Annwyl bawb, Mae'r ysgol yn gobeithio anfon y plant sy yn y tîm hoci i Canada ym mis Rhagfyr. Mi fydd rhaid i ni godi pres i allu gwneud hyn wrth gwrs. Os dach chi isio ymuno efo'r grŵp sy'n trefnu, cysylltwch efo fi – mae isio mwy o rieni i gymryd rhan. Mi fydd y cyfarfodydd ar-lein wrth gwrs, os dach chi'n medru dŵad. Diolch ymlaen llaw. Ed	

Oddi wrth: Anna At: Vincent Pwnc: _____	Neges 3
Helo Vince, wyt ti'n well? Dim ond neges fach i ddymuno'n dda i ti, ar ôl i ti ddŵad yn ôl i'r gwaith. Roedd hi'n anodd heb dy help di dros yr haf, ond mi wnaeth popeth fynd yn iawn yn y diwedd, diolch byth. Mae pawb yn falch fod y driniaeth wnest ti gael yn yr ysbyty wedi mynd yn dda. Mi fydda i'n galw i mewn i ddeud helo cyn bo hir, gobeithio. Cofion, Anna	

Oddi wrth: Graham At: Maria Pwnc: _____	Neges 4
Bore da, Maria. Mi wnaeth y cyngerdd neithiwr fynd yn dda iawn, felly mi faswn i'n hoffi diolch i ti a'r tîm am drefnu popeth. Roedd y côr wedi canu'n wych ac roedd hi mor braf cael te a sgwrs efo pawb ar ôl hynny. Dw i'n gobeithio bydd y papur lleol yn cynnwys lluniau o'r noson; roedd pawb wedi gweithio'n galed iawn. Pob hwyl, Graham	

trosodd/over

Rhan 3 – Llenwi Bylchau
Part 3 – Gap-filling

[24]

Llenwch y bylchau yn y brawddegau yma:
Fill in the gaps in these sentences:

1. Does _____ rhaid i ti fynd i'r parti.
2. Dw i'n chwilio _____ rywun i helpu.
3. Dyma'r ffôn _____ (drud) yn y siop!
4. _____ hi ddim yn wlyb ddoe.
5. _____ hi'n braf, baswn i'n mynd am dro.
6. Mae llawer o _____ (ysgol) wedi cau.
7. Dw i'n aros ers _____ (2) awr am y trê.
8. Beth _____ (gwneud) nhw ddoe?
9. _____ (dod) i mewn, ac eisteddwch!
10. Mae hi wedi ysgrifennu _____ y rheolwr.
11. Wyt ti'n mynd i'r cyfarfod? _____ (✓)
12. Ydy'r plant yn y tŷ? _____ (✓)